**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 5 Chwefror 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams | P K Jones |
| J W Jones | | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr):**

| | |
|---|---|
| Cherrie Bija | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe |
| Y Cyng. C Anderson | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Martyn Waygood | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |

**Cynghorwyr eraill a oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Clive Lloyd | Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe |
| Mark Child | Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Lles |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Dr. Keith Reid | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Siân Harrop-Griffiths | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Nina Williams | Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Claire Fauvel | Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Gary Mahoney | Swyddog Dilyniant y Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Abertawe |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol, Cyngor Abertawe |
| Julie Gosney | Rheolwr Partneriaeth Cyfnodau Bywyd, Cyngor Abertawe |
| Brij Madahar | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P M Black, T J Hennegan a/ac L R Jones

---

9 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Mary Jones – mae fy merch yn fydwraig sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Y Cynghorydd Jeff Jones - mae fy merch yn fydwraig sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Martyn Waygood – mae fy merch yn nyrs sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe; ymddiriedolwr elusen 'Ospreys in Community'

## 10 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 11 Cofnodion.

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Panel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2020, yn gofnodion cywir.

## 12 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 13 Amcan Lles y BGC Y Diweddaraf am Gynnydd: Blynyddoedd Cynnar.

Bu'r panel yn trafod y Blynyddoedd Cynnar, sef un o bedwar amcan lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Derbyniodd y panel adroddiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sef partner arweiniol y BGC ar gyfer yr amcan hwn. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r diweddaraf i'r panel am y gweithgareddau a'r cynnydd yn erbyn nifer o gamau 'allweddol' i gyflwyno gwelliannau a'r gwahaniaeth a wnaed.

Clywodd y panel gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys Dr. Keith Reid, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, arweinydd strategol newydd yr amcan lles hwn, Siân Harrop-Griffiths (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe), Nina Williams (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru), Claire Fauvel (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Gary Mahoney (Swyddog Dilyniant y Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Abertawe).

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar:

- Arweinyddiaeth ar yr amcan hwn ac ymdrechion pawb sy'n ymwneud â hyn i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant
- Gwerthuso cynllun Peilot Gofal Sylfaenol y Blynyddoedd Cynnar yng nghlwstwr Penderi.
- Gwerthuso taith prosiect Jig-So.
- Gweithio i archwilio a mapio system y blynyddoedd cynnar fel bod dealltwriaeth well o'r gwasanaethau sy'n bodoli ac i wella cyd-drefniant ac integreiddiad.

- Enghreifftiau o'r gwaith a wnaed ac effaith Rhaglen Dechrau'n Deg, Prosiect Jig-So a chynllun peilot y Blynyddoedd Cynnar, o ran gwella iechyd, arferion, perthnasoedd a datblygu sgiliau a gwytnwch.
- Posibilrwydd cyflwyno/datblygu ymagweddau ar draws Abertawe, o ystyried yr arbedion costau a'r buddion
- Her adnoddau prin
- Problem ynghylch y sylw a roddir i Dechrau'n Deg
- Y gwaith a wnaed i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Gwelliannau cynlluniedig ar gyfer gofal iechyd meddwl amenedigol.
- Pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar i helpu plant a theuluoedd ag anghenion a rôl hanfodol bydwreigiaeth fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer nodi cefnogaeth ac atgyfeiriadau i'r gwasanaethau priodol.
- Y gwahaniaeth a wneir o ganlyniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Yr angen am gerrig milltir/dangosyddion clir sy'n dangos y gwelliannau tymor byr a thymor hir.

Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y cynnydd.

Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn.

**CYTUNWYD** y byddai'r Panel yn ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'i farn am gynnydd cyflwyno'r camau mewn perthynas ag amcan y Blynyddoedd Cynnar, a'r canlyniadau.

14 **Amcan Lles y BGC Y Diweddaraf am Gynnydd: Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda.**

Bu'r panel yn trafod Byw'n dda, Heneiddio'n dda, sef un o bedwar amcan lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Derbyniodd y panel adroddiad gan Gyngor Abertawe, sef partner arweiniol y BGC ar gyfer yr amcan hwn. Roedd yr adroddiad a ddarparwyd i'r panel yn ei alluogi i ddeall y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran yr amcan Byw'n dda, Heneiddio'n dda a'r camau allweddol, yn ogystal â'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Clywodd y panel gan y Cynghorydd Clive Lloyd, Cadeirydd BGC Abertawe, y Cynghorydd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda, a chadeirydd y Grŵp Cyflwyno Amcanion, Adam Hill, Swyddog Arweiniol Strategol a'r swyddogion arweiniol gweithredol, Jane Whitmore a Julie Gosney.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Y gwaith ar gynnwys dinasyddion a chyfranogiad drwy ddulliau megis y Sgwrs Fawr, Fforwm Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda (fersiwn wedi'i diwygio o Fforwm 50+) a chyfleoedd eraill rhwng y cenedlaethau.
- Mae prosiect adrodd straeon digidol parhaus 'Digital Friendly Generations' wedi bod yn llwyddiannus wrth ddod â phobl hŷn ac ifanc at ei gilydd yn Abertawe.

- Ymagwedd y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol.
- Y tair ymagwedd thematig allweddol ar gyfer y dyfodol – cyflawni'r amcan lles a sicrhau ymrwymiad i'r bartneriaeth, gyda chamau gweithredu wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod: Dinas i Bawb; Teithio Llesol; a Llythrennedd Iach/Heneiddio'n Iach.
- Rôl grwpiau cymunedol eraill, gan gynnwys eglwysi, ynghyd â'r gymuned ehangach mewn ymdrechion i ymgysylltu â phobl.
- Y gwaith a wnaed yn y trydydd sector, gyda CGGA fel y corff ymbarél, sy'n arbed costau ar gyfer y partneriaid statudol.
- Pryder ynghylch effaith llygredd aer ar ein gallu i fyw'n dda a heneiddio'n dda.

Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y cynnydd.

Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn.

**CYTUNWYD** bod y panel yn ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'i farn am gynnydd o ran cyflwyno'r camau gweithredu mewn perthynas â phob amcan, a'r canlyniadau.

15 **Llythyrau.**

Derbyniodd y panel yr ohebiaeth a anfonwyd gan y panel at Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r ymateb a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2019.

16 **C ynllun Gwaith 2019/20.**

Nodwyd cynllun gwaith y panel ar gyfer y flwyddyn ddinesig hon. Dyma'r eitemau ar gyfer cyfarfod nesaf y panel, ym mis Ebrill 2020:

- Y diweddaraf am gynnydd Amcanion Lles y BGC: Cymunedau Cryfach
- Y diweddaraf am gynnydd Amcanion Lles y BGC: Gweithio gyda Natur
- Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gwaith

Daeth y cyfarfod i ben am 11.47 am

**Cadeirydd**